COMMUNITY FUND

OUR BRIGHT FUTURE

# Rhannu effeithiau a chodi proffil cyflawniadau'r prosiect

## Cyngor Doeth

Mae cyhoeddi a rhannu canfyddiadau gwerthuso'n un o ganlyniadau allweddol unrhyw brosiect a dylid ystyried yn ofalus sut i wneud hyn er mwyn sicrhau'r allgymorth a'r defnydd gorau posibl. Mae diffinio pam a sut rydych yn mynd i ddosbarthu cyflawniadau a nodi'r prif gynulleidfaoedd a'r cynulleidfaoedd eilaidd yn hollbwysig. Gall dosbarthu fod yn werthfawr am y rhesymau canlynol:

- rhannu arfer da
- denu cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth o effaith prosiectau
- buddiol ar gyfer cyfleoedd cyllido yn y dyfodol
- cyfrannu tuag at sylfaen dystiolaeth ehangach
- cofnodi cynnydd
- dathlu llwyddiant

### Pam cynnal gwerthusiad?

Ar gyfer prosiectau, prif bwrpas gwerthuso yw deall beth sydd a beth sydd ddim yn gweithio, casglu gwersi a ddysgir ac arfer gorau ac addasu dulliau prosiect os oes angen. Gellir defnyddio gwerthusiadau hefyd i ddangos i randdeiliaid fel byrddau rheoli prosiectau, ymddiriedolwyr a chyllidwyr pa wahaniaeth mae'r prosiect yn ei wneud. Mae'n bwysig sicrhau bod fframwaith gwerthuso'n cael ei gynnwys mewn prosiect o'r dechrau a bod gweithgarwch gwerthuso'n cael ei gynnal yn rheolaidd drwy gydol y prosiect.

### Cynllunio i rannu gwerthusiad a chynllun dysgu

Ewch ati i greu cynllun systematig ar gyfer sicrhau bod canlyniadau gwerthuso'n cael eu dosbarthu'n effeithiol i randdeiliaid mewnol ac allanol. Dylid datblygu hyn ar ddechrau'r prosiect oherwydd dylid cyfathrebu effeithiau a chanfyddiadau drwy gydol y prosiect gan sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol. Rhaid ystyried pwy yw prif gynulleidfa'r dosbarthu. Gallai hyn gynnwys y prosiectau eu hunain, partneriaid prosiectau, cyllidwyr a llunwyr polisïau yn y dyfodol. Ystyriwch gynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid ar ddechrau'r gwerthusiad i nodi pwy yw'r cynulleidfaoedd allweddol hyn. Datblygwch y negeseuon allweddol rydych eisiau eu hyrwyddo gyda hwy ac ystyriwch sut rydych eisiau iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon a sut gallent ei rhannu.

Hefyd dylai'r cynllun gofnodi sut bydd y dosbarthu'n cael ei wneud drwy amrywiaeth o fecanweithiau cyfathrebu effeithiol, arloesol ac amrywiol a llinell amser ar gyfer ymgysylltu.

### Cyfathrebu arloesol

Ystyriwch y dulliau allgymorth ar gyfer negeseuon gwerthuso fel gwefan, cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, gweithdai ac adroddiadau ffurfiol. Defnyddiwch ddeunyddiau dosbarthu ar-lein a phrint fel fideos, graffeg gwybodaeth ac animeiddiadau.

## Grwpiau targed

Diffiniwch grŵp targed y gwerthusiad ac addasu'r defnydd o wahanol gynhyrchion, sianelau a gweithgareddau dosbarthu yn unol â hynny. Ystyriwch yr amser sydd ar gael iddynt, yr hyn y gallent fod â diddordeb mewn ei glywed a'r hyn sydd fwyaf tebygol o hawlio eu sylw. Ystyriwch beth rydych eisiau iddynt ei wneud gyda'r wybodaeth hon a sut gallent ei defnyddio. Efallai y bydd angen negeseuon allweddol pwrpasol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd felly ystyriwch hyn hefyd.

## Negeseuon allweddol

Nodwch effeithiau allweddol eich prosiect rydych eisiau eu cyfathrebu a datblygwch y rhain yn negeseuon allweddol. Meddyliwch am gyflawniadau allweddol, tystiolaeth o ganlyniadau neu effeithiau a gyflawnwyd, arfer da, gwersi a ddysgwyd neu argymhellion.

## Data ansoddol a meintiol

Gall delweddau a graffeg gwybodaeth fod yn gymhorthion gweledol pwerus i'w dosbarthu. Ystyriwch gydbwysedd o ddata ansoddol fel dyfyniadau gan gyfranogwyr y prosiect a data meintiol h.y. ystadegau i ddangos effeithiau eang y prosiect.

## Sicrhau'r cydbwysedd cywir

Rhaid addasu'r negeseuon i'r gynulleidfa. Datblygwch ddatganiadau byr, hygyrch yn disgrifio'r effeithiau ar gyfer eu cyfathrebu ochr yn ochr â negeseuon manylach ar gyfer cynulleidfaoedd mwy 'technegol'.

**Diolch i brosiectau am eu cyfraniad ac am alluogi'r ethos *Rhannu Dysgu Gwella* ar draws y rhaglen. Ar gyfer adnoddau pellach ac arfer da, ewch i'r ffolder Galluogi Pobl Ifanc yn ardal y Gronfa Wybodaeth yn yr Ystafell Werdd.**

**Oes gennych chi unrhyw wersi allweddol a ddysgwyd neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â dosbarthu gwerthusiadau a allai fod yn ddefnyddiol i brosiectau eraill yn eich barn chi? Os felly, rhannwch y rhain gyda Nikki Robinson nrobinson@wildlifetrusts.org**